



Ysgol Hafod Lon,  
Parc Busnes Eryri,  
Penrhyndeudraeth,  
LL48 6LD

Pennaeth: Mrs Donna Roberts  
donnaroberts@gwynedd.llyw.cymru

01766772140

[post@ysgolhafodlon.co.uk](mailto:post@ysgolhafodlon.co.uk)

Annwyl Riant / Warchodwr,

Dymunaf fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i chi fel rhieni am eich cyd-weithrediad llawn yn ystod y cyfnod trosglwyddo yma. Mae'r tair wythnos yma wedi bod yn llwyddiannus mewn:

- Rhoi cyfnod blasu ac ymgyfarwyddo ar gyfer dysgwyr newydd sydd yn ymuno a'r ysgol.
- Darparu cyfnod trosiannol graddol ar gyfer y dysgwyr, gan roi cyfle iddynt fod yn eu dosbarthiadau ond mewn grwpiau llai.
- Rhoi cyfle i'r staff gynnal asesiadau o sgiliau disgyblion mewn grwpiau llai, a fydd o gymorth wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer eich plentyn ar ôl yr 21fed o Fedi.
- Rhoi cyfle i'r disgyblion ymgyfarwyddo gyda newidiadau yn nhrefn yr ysgol (e.e. trefn cinio) gyda grwpiau llai, cyn ymestyn i'r dosbarth cyfan.
- Ystyried sut mae'r ysgol yn gweithio o ran grwpiau, a gwahanol weithgareddau.
- Rydym wedi dyfeisio cynlluniau ar gyfer tymor yr Hydref ond efallai bydd angen newid rhain os fydd yna newidiadau i'r canllawiau dros amser / neu bydd amgylchiadau trosglwyddo yn newid yn y gymuned.
- Fel rhan o'n asesiad risg sydd wedi ei uwchraddio byddwn angen parhau gyda rhai newidiadau i'n diwrnod ysgol ni i gydfynd â chynghor gan y llywodraeth. Mae rhain yn debyg i'r rhai y rhoes wybod i chi cyn i ni dorri fyny dros tymor yr haf ac sydd yn cynnwys:

#### **Y Dosbarthiadau a Ystafelloedd Arbenigol**

- Bydd y disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau am fwyafrif y diwrnod i gyfyngu symud o gwmpas yr ysgol.
- Byddwn yn defnyddio ein holl adnoddau ac ystafelloedd arbenigol, a bydd staff sy'n gweithio gyda disgyblion yn diheintio ardaloedd dysgu ar ôl eu defnyddio. Mae offer diheintio pwrpasol ymhob dosbarth .
- Pellter cymdeithasol – byddwch yn gwerthfawrogi fod cadw pellter cymdeithasol yn anodd neu amhosib i rai o'r disgyblion ac mae hyn wedi ei gydnabod yn ein Asesiad Risg fel rhywbeth sydd yn anodd i ni ei reoli. Yn amlwg os ydym yn gallu cadw at unrhyw fath o bellhau cymdeithasol byddwn yn ymdrechu i wneud hynny.
- Mae'r neuadd a'r coridorau wedi cael eu mesur ar gyfer y rheol 2 fetr ymbellhau cymdeithasol.
- Bydd staff a ble sydd yn bosib disgyblion yn gwisgo masgiau ar y coridorau ac unrhyw ystafelloedd/ardaloedd cymunedol.

#### **Y Pwll Hydro a'r Ganolfan Hamdden**

- Bydd angen canllawiau pellach arnom cyn y byddwn yn ail agor y pwll hydro.
- Mae'r Ganolfan Hamdden lleol wedi gadael i ni wybod na fyddwn yn gallu defnyddio'r pwll. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan y Ganolfan Hamdden ar ddiwedd y tymor.

#### **Profiad Gwaith a defnydd o'r Bysiau Mini**

- Yn anffodus ni fyddwn yn trefnu profiad gwaith allan o'r safle a byddwn yn adolygu'r trefniadau yn dilyn hanner tymor.
- Ni fydd disgyblion yn mynd oddi ar y safle i'r gymuned gan ddefnyddio bysiau mini yr ysgol ond byddwn yn cadw'r sefyllfa yma o dan adolygiad gan ei fod yn ran bwysig o gwricwlwm yr ysgol.

#### **Gwybodaeth Feddygol**

- Rydym yn falch o gyhoeddi fod staff gofal iechyd yn nol yn gweithio yn yr ysgol.

- Rydym yn disgwyl ymweliad gan aelodau o adran Ffisiotherapi cyn diwedd y mis er nad ydynt ond yn delio gydag achosion argyfwng.
- Rydym yn disgwyl dyddiad dychwelyd gan yr adran Therapydd Iaith a Lleferydd ond mae posib i ni gael cyfarfod â nhw yn rhithiol.

### **Salwch**

- Os yw eich plentyn yn dangos symptomau Cofid-19 bydd angen iddynt aros adref ac i chi drefnu prawf.
- Os bydd unrhyw aelod o'r teulu yn arddangos symptomau Covid-19, bydd angen i'ch plentyn aros adref am 14 diwrnod.
- Os bydd eich plentyn yn arddangos symptomau yn ystod y dydd, yna byddwn yn cysylltu â chi yn syth ac yn symud eich plentyn i ystafell ynysu bwrpasol.
- Os oes achos positif o Cofid-19 yn cael ei gadarnhau yn yr ysgol bydd y system 'Track and Trace' yn dod i gysylltiad â phob unigolyn perthnasol. Byddant yn cynghori ynglŷn â gweithrediad fel hunan-ynysu.

**Gofynwn yn garedig i chi sicrhau bod rhifau cyswllt cywir a fwyaf diweddar gan yr ysgol. Diolch**

### **Trefniadau Hylendid a Gofal Personol**

- Bydd disgyblion yn cael eu hannog i olchi dwylo a defnyddio 'hand sanitiser' wrth gyrraedd yr ysgol.
- Bydd staff yn defnyddio PPE llawn wrth helpu disgyblion sydd angen gofal personol neu gymorth cyntaf yn ystod oriau ysgol.
- Bydd y toiledau'n cael eu glanhau yn gyson yn ystod y dydd.
- Bydd staff yn diheintio offer dosbarth ac adnoddau wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen.
- Bydd trefn golchi dwylo'n digwydd yn rheolaidd yn y dosbarth a bydd hand sanitiser ar gael hefyd.
- Bydd y dosbarth yn cael ei lanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd.
- Bydd rhaid i bob plentyn wisgo dillad glan pan yn mynychu'r ysgol. Oherwydd hyn rydym yn hyblyg ynglŷn â'r angen i wisgo dillad ysgol gan y deallwn mor anodd yw hi i olchi a sychu dillad yn ystod misoedd y gaeaf.
- Byddwn yn cyfyngu faint o eitemau fydd y disgyblion yn gael ddod i'r ysgol bob dydd ond eto medrwn werthfawrogi'r amgylchedd y rydym yn gweithio yno ac na fydd y reol yma yn gweithio bob tro yn ein ysgol ni. Rydwyf yn sicr y byddwch yn deallt hyn. Rhwng adref a'r ysgol byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cymeryd camau ac agwedd mor ymarferol a diogel ac y gallwn i barhau i gadw amgylchedd yr ysgol mor ddiogel a phosib a safle lle mae'r disgyblion yn gallu ymlacio a teimlo'n ddiogel.
- Bydd dyddiaduron cartref/ysgol yn parhau a teimlwn yn gryf fod cyfathrebu da rhwng ysgol ac adref yn bwysig yn ystod y cyfnod anodd yma.
- Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio yr app Seesaw a Google Classroom gan fod rhain wedi bod yn lwyddiannus iawn.

### **Amser Cyrraedd a Gadael**

- Bydd yr ysgol yn gweithredu ei horiau arferol sef drysau'n agor am 8.55am gan weithredu'r trefniadau sydd eisioes mewn lle ar gyfer gollwng disgyblion.
- Bydd aelod o staff yr ysgol yn eich cyfarfod i hebrwng eich plentyn. Ni fydd angen i rieni, na tywysydd taci adael y cerbyd ar wahan i dynnu cadair olwyn o'r cerbyd. Ni fydd hawl gan neb i ymgynnull yn yr ardal wrth y fynedfa.

### **Amser Chwarae / Cinio**

- Bydd amser chwarae'r disgyblion wedi eu hamserlennu.
- Bydd angen i'r disgyblion olchi eu dwylo cyn ac ar ôl amser chwarae.

### **Trefniadau Cinio**

- Fe fydd yr ysgol yn darparu cinio, neu caiff y disgyblion ddod a bocs bwyd i'r ysgol.
- Bydd pob pecyn gwag yn gorfod mynd adref yn ôl.
- Dros dro bydd y disgyblion yn bwyto cinio yn eu dosbarthiadau i osgoi grwpiau mawr ymgynnull yn y ffreutur.
- Cost cinio ysgol yw £2.50 y diwrnod.
- Buasem yn ddiolchgar os y buasem yn gallu talu am ginio ysgol eich plentyn wrth ddefnyddio ein system ar-lein, os ydych chi angen mwy o fanylion cysylltwch â Catrin Evans yn yr ysgol. Os nad yw hyn yn bosib a fuasem gystal a rhoi'r arian cinio mewn amlen efo enw eich plentyn a'i ddosbarth wedi ei ysgrifennu ar y ffrynt yr amlen. Bydd pres cinio yn cael ei gasglu ar ddydd Gwener. Diolch

### **Gwyliau Ysgol**

26 Hydref – 30 Hydref 2020 (Hanner Tymor)  
 21 Rhagfyr 2020 – 1 Ionawr 2021 (Gwyliau Nadolig)  
 15 Chwefror – 19 Chwefror 2021 ( Hanner Tymor)  
 29 Mawrth – 9 Ebrill 2021 (Gwyliau Pasg)  
 3 Mai 2021 (Calan Mai)

31 Mai – 4 Mehefin 2021 (Haner tymor)  
21 Gorffennaf – 31 Awst 2021 (Gwyliau haf)

### **Dyddiau Hyfforddiant mewn swydd**

Eleni mae gennym 6 diwrnod hyfforddi ar gyfer staff ble na fydd yr ysgol ar agor i'r disgyblion. Byddwn yn cadarnhau y dyddiadau maes o law.

### **Gweithdrefn Gwyno**

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol wedi sefydlu gweithdrefn y dylai Cyrff Llywodraethu Ysgolion Lleol eu dilyn os fuasai cwyn yn codi ynglŷn â materion perthnasol yn codi o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, tynnwn eich sylw at y ffaith fod rhan fwyaf o gwynion yn gallu cael eu delio â hwy yn effeithiol a sydyn trwy sgwrs gyda'r Pennaeth. Dylai hyn fod y cam cyntaf a buasai'r Corff Llywodraethu yn disgwyl i hyn fod wedi ei ymgymeryd cyn nodi cwyn ffurfiol.

### **Trefniadau Ymweld**

Yn ystod y cyfnod yma ni fyddwn yn caniatáu ond ymwelwyr angenrheidiol i'r ysgol. Rydym yn cyfrif ymwelwyr angenrheidiol fel rhywun sydd yn angenrheidiol i iechyd, lles ac anghenion addysgol y disgyblion. Bydd yr ymwelydd angen gwneud trefniadau cynt a dilyn canllawiau'r ysgol.

Er mwyn cyfyngu ar y risg o drosglwyddo'r firws, nid yw cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal ar y safle. Nid yw hynny'n golygu na ddylech gysylltu â'r ysgol os oes gennych bryder. Mae croeso i chi ffonio neu e-bostio'r ysgol i drafod unrhyw faterion a allai fod gennych ac rydym yn parhau i annog rhieni a gofalwyr i wneud hyn yn brydlon

### **Adolygiadau Blynyddol a cyfarfodydd statudol**

Rydym yn bwriadu parhau â'r cyfarfodydd hyn ond byddant bellach yn cael eu cynnal yn ddigidol trwy Microsoft TEAMS. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Fel y nodwyd yn flaenorol gwerthfawrogwn eich cefnogaeth yn ddiffuant; rwyf yn llwyr gydnabod fod y cyfnod yma wedi bod yn heriol iawn i rai ohonoch yn ogystal ac i rai o'r staff hefyd. Byddwn i gyd yn falch o gael dod yn ôl at fywyd tebyg i fywyd Hafod Lon cyn y clo mawr. Rydym yn ymfalchio yn y ffaith fod Hafod Lon yn ysgol hapus a bywiog gyda gymuned gryf ac awyrgylch gadarnhaol er lles y plant. Fe wnawn ddychwelyd at hyn er gwaethaf yr heriau rydym yn eu gwynebu.

Deallaf fod yr amser yma yn gallu bod yn bryderus i rai ohonoch ond dymunaf eich sicrhau y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar unrhyw bryderon bydd gennych gan ein bod i gyd eisiau'r gorau i'ch plentyn.

Gobeithio fod y wybodaeth uchod yn ateb y mwyafrif o'ch ymholiadau. Hyn fydd y 'normal newydd' am y tro.

Yn gywir iawn,